




"Mae dewis hanes wedi bod yn benderfyniad rhagorol i mi. Mae'r tasgau'n ddeallusol heriol ac mae pynciau'r cwrs yn hynod ddiddorol, yn enwedig yr adran ar yr Almaen Natsïaidd a pholisi tramor America. Os oes un pwnc nad oes gennych ddiddordeb ynddo, daliwch ati ag ef oherwydd bydd rhywbeth i bawb! Mae'r staff addysgu hefyd yn garedig, yn gefnogol ac yn ddeallus. Mae cymryd hanes wedi rhoi'r sgiliau hanfodol sydd angen arnaf i fynd ymlaen i astudio yn y brifysgol."

**Dylan Gash**

# Hanes

## Pam astudio Hanes?

Dylech astudio Hanes os hoffech chi ddysgu sut a pham mae'r byd a'i bobl wedi datblygu i'r hyn a welwn ni heddiw. Mae Hanes yn hyfforddi eich meddwl ac yn eich addysgu sut i feddwl a phrosesu gwybodaeth. Drwy'r cwrs byddwch yn datblygu eich gallu i ddadansoddi ac esbonio problemau'r gorffennol, a fydd yn arf hanfodol ar gyfer datrys problemau yn y presennol ac yn y dyfodol. Yn ogystal, mae Hanes yn rhoi i chi'r sgiliau hynny y mae galw mawr amdanynt gan gyflogwyr.

## Gofynion y cwrs

**TGAU Hanes**

Fel arfer, disgwylir gradd B neu uwch ond mae'n bosibl y derbynnir gradd C yn dilyn sgwrs gyda'r Pennaeth Adran a Phennaeth y Chweched. Efallai bydd myfyrwyr sydd heb gymryd Hanes ar lefel TGAU yn cael eu derbyn yn dilyn sgwrs gyda'r Pennaeth Hanes a Phennaeth y Chweched, cyn belled â bod ganddynt o leiaf radd C TGAU mewn Cymraeg.

## Manylion y cwrs a'r dulliau asesu

### UG

**Uned 1** - [20%]
Llywodraeth, Chwyldro a Chymdeithas yng Nghymru a Lloegr, c. 1485-1603:
Arholiad: 1 awr 30 munud

**Uned 2** -[20%]
Yr Almaen: Democratiaeth i Unbennaeth, c.1918 - 1933: Weimar a'i Heriau:
Arholiad: 1 awr 45 munud

### Uwch

**Uned 3** - [20%]
Y Ganrif Americanaidd 1890-1990:
Arholiad: 1 awr 45 munud

**Uned 4** - [20%]
Yr Almaen: Democratiaeth i Unbennaeth, c.1933-1945: Yr Almaen Natsïaidd
Arholiad: 1 awr a 45 munud

**Uned 5** - [20%] Gwaith Cwrs: Dehongliad Hanesyddol
Aseiniad Mewnol yw'r uned hon. Mae'n ymchwiliad hanesyddol sy'n deillio o astudiaeth drylwyr o destun penodol y gall y myfyrwyr ei ddewis eu hunain. Rhaid i fyfyrwyr weithio'n annibynnol er mwyn cynhyrchu darn estynedig o ysgrifennu o tua 3,000 i 4,000 gair yn seiliedig ar astudio gwahanol ffynonellau.

## Sgiliau a ddatblygir a swyddi posibl

Mae haneswyr da yn gwneud cyfreithwyr, gwleidyddion, rheolwyr, newyddiadurwyr, archaeolegwyr, dylunwyr gwisgoedd, swyddogion datblygiad economaidd, penseiri, dylunwyr amgueddfeydd ac athrawon da, a llawer iawn mwy.

Mae'r cwrs yn annog ymgeiswyr i ddatblygu eu gallu i feddwl yn feirniadol, datblygu eu Sgiliau Allweddol a'u gallu i weithio gydag eraill, datrys problemau, dadlau materion a deall proses a natur astudiaeth hanesyddol. Nid yw hanes yn wyddoniaeth union gywir. Mae'n arlliwiau o 'lwyd' yn hytrach na du a gwyn. Bydd gofyn i chi ddadansoddi, gwerthuso a dehongli digwyddiadau a'r dystiolaeth sydd ar gael a medru llunio eich barn eich hun.